

Welsh Language Impact Assessment

Asesiad o Effaith ar yr Iaith Gymraeg

Rhagfyr 2017

Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

Teitl: <u>Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016</u> - Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017 - Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2017	Rhif Cyfeirnod yr Asesiad <i>(I'w llenwi gan Uned y Gymraeg):</i>
Enw'r unigolyn sy'n llenwi'r ffurflen:	Chris Pickett
Dyddiad:	Tachwedd 2017
Arweinydd polisi:	Alison Machon
Manylion cyswllt:	RISCAct2016@wales.gsi.gov.uk

Math o Raglen/Prosiect

☐ Polisi	☐ Prosiect neu raglen
x ☐ Deddfwriaeth	
☐ Grant	☐ Ymchwil, gwerthusiad
☐ Newid busnes	
☐ Seilwaith	☐ Gwasanaethau
☐ Adeiladu, Cyfalaf	
☐ TGCh	☐ Contractau, tendrau
☐ Arall (Nodwch isod)	

Costau: Beth a ragwelir y bydd cost oes gyfan y rhaglen/prosiect? Os yn llai na £25k, nid oes angen Asesiad llawn bob tro (gweler y canllawiau).				
O dan £25k	£25 - £49k	£50 - £249k	£250k - £1miliwn	Dros £1miliwn
☐	☐	☐	☐	☒

O'r uchod, a oes unrhyw gostau sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r iaith Gymraeg?
Mae'r costau hyn yn gysylltiedig â gweithredu a darparu dwy set o Reoliadau, a chanllawiau statudol cysylltiedig, a ddatblygwyd o dan gam 2 gweithrediad Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ("Deddf 2016"). Y rhain yw:

- Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaeth ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017 (“y rheoliadau gwasanaeth”);
- Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2017;
- Canllawiau statudol ar gyfer darparwyr gwasanaeth ac unigolion cyfrifol ar gyflawni rheoliadau safon gwasanaeth

Mae rhai costau posibl wedi’u nodi mewn cysylltiad â gweithredu’r Rheoliadau a’r canllawiau statudol, a nodir isod:

Mae’n ofynnol i ddarparwyr gwasanaeth gefnogi a gofalu am unigolion yn unol â’u hanghenion penodol hwy. Mae hyn yn cynnwys darparu neu weithio i gynnig yn weithredol, wasanaeth yn yr iaith Gymraeg i unigolion sy’n siarad Cymraeg fel mamiaith.

Yn ogystal, mae Rheoliad 12 y rheoliadau gwasanaeth yn ei gwneud yn ofynnol i nifer o bolisiâu a gweithdrefnau fod ar waith ar gyfer y gwasanaeth. Mae’r canllaw cysylltiedig yn esbonio bod y polisiâu a’r gweithdrefnau hyn ar gael mewn fformat hygyrch i’r unigolyn. Os mai Cymraeg yw iaith gyntaf unigolyn, yna mae’n bosibl y bydd angen darparu’r polisiâu a’r gweithdrefnau hynny yn Gymraeg.

Yn gysylltiedig â hyn mae’r rheoliadau gwasanaeth yn gofyn i gynllun personol gael ei baratoi ar gyfer unigolion sy’n nodi sut y bydd anghenion gofal a chymorth yr unigolyn yn cael eu cyflawni ar sail o ddydd i ddydd. Disgwylir i’r cynllun hwn gael ei ddarparu i’r unigolyn sy’n derbyn y gwasanaeth mewn iaith sy’n briodol i’w hanghenion, gan gynnwys y Gymraeg.

Mae’r rheoliadau gwasanaeth hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gynhyrchu canllaw ysgrifenedig i’r gwasanaeth. Unwaith eto, mae’n rhaid i hyn fod mewn iaith briodol.

Gall y gofynion hyn arwain at gostau ychwanegol i’r darparwyr. Fodd bynnag, mae’n anodd amcangyfrif yr union gostau oherwydd byddant yn amrywio’n fawr yn ôl lefelau’r iaith Gymraeg a nodwyd o fewn y gwasanaeth, galluoedd presennol y staff sydd wedi’u cyflogi yn y gwasanaeth i gyflawni’r angen hwnnw ac, os bydd angen, y lefel ddilynol o gyfieithu neu anghenion hyfforddiant angenrheidiol.

Enghraifft o’r gost o ddefnyddio gwasanaeth cyfieithu yng Nghymru, sy’n weithredol o fis Hydref 2017 yw o £28 yr awr.¹ Fodd bynnag, bydd y gost hon yn debygol o amrywio yn ôl y cwmni a ddefnyddir a’r swm o gyfieithu sydd ei angen.

Pa mor hir y disgwylir i’r rhaglen/prosiect redeg?

Hyd at 1	Hyd at 2	Hyd at 5	Hyd at 10	Dros 10	Anghysbys
----------	----------	----------	-----------	---------	-----------

¹ Dyfynnwyd o <https://bostico.uk/interpreter/wales.htm>, 18 Hydref 2017

flwyddyn	flynedd	mlynedd	mlynedd	mlynedd	
☐	☐	☐	x ☐	☐	☐

Dyddiadau nodedig allweddol ar gyfer y rhaglen/prosiect:

Cerrig milltir nodedig:

- **Rhagfyr 2016** – Cyfarfod cychwynnol i drafod cyfeiriad gyda grwpiau technegol
- **Ionawr – Ebrill 2017** – Drafftio'r Rheoliadau
- **Mai 2017** - Agor yr ymgynghoriad cyhoeddus ar y rheoliadau arfaethedig a'r canllawiau statudol
- **21 Mehefin 2017 a 13 Gorffennaf 2017** – Digwyddiadau rhanddeiliaid yng ngogledd a de Cymru i hybu dealltwriaeth o'r rheoliadau arfaethedig
- **Gorffennaf 2017** – Cau'r ymgynghoriad
- **21 Tachwedd 2017** – Cyflwyno fersiwn terfynol Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaeth ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017.
- **12 Rhagfyr 2017** – Cyflwyno fersiwn terfynol Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2017
- **Chwefror 2018** Cyhoeddi'r Canllaw Statudol terfynol
- **Ebrill 2018** Dyddiad gweithredu Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaeth ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017 a Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2017

CAM 1: CYNLLUNIO

Beth yw nodau ac amcanion y polisi? Beth yw'r canlyniadau a ddymunir/beth sy'n angenrheidiol gan y rhaglen er mwyn iddi fod yn 'llwyddiant'?

Derbyniodd Deddf 2016 Gydsyniad Brenhinol ar 18 Ionawr 2016. Mae'n diwygio'r system rheoleiddio ac arolygu gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Deddf 2016 – cefndir, nodau a'r canlyniadau a ddymunir

Mae gofal cymdeithasol wedi newid yn sylweddol ers cyflwyno'r Ddeddf Safonau Gofal yn 2000 ac mae angen sicrhau bod ein system reoleiddiol yn adlewyrchu arferion modern ac nad yw'n dyddio nac yn gyfyngol.

Mae Deddf 2016 yn ceisio mynd i'r afael â'r materion hyn.

Nodau ac amcanion nodedig Deddf 2016 yw:

1. Ymatebolrwydd i ddiwygiadau'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) ("Deddf 2014");

2. Sicrhau bod dinasyddion wrth wraidd y gofal a'r cymorth;
3. Datblygu ymagwedd gydlynus a chyson at y Gymraeg;
4. Mynd i'r afael â methiannau darparwyr;
5. Ymatebolrwydd modelau gwasanaeth newydd ac unrhyw bryderon sy'n dod i'r amlwg ynglŷn ag ansawdd gwasanaethau gofal a chymorth.

Mae Deddf 2016 yn darparu'r fframwaith statudol ar gyfer rheoleiddio ac arolygu gwasanaethau gofal cymdeithasol a'r gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae'n galluogi Gweinidogion Cymru i roi nifer o eitemau o is-ddeddfwriaeth drwy'r broses creu rheoliadau, cyhoeddi canllaw statudol a chyflwyno codau ymarfer i gefnogi'r fframwaith a'i roi ar waith.

Wrth weithredu canlyniadau Deddf 2016 yn llawn, mae hyn yn galluogi i Lywodraeth Cymru:

- diwygio'r system reoleiddiedig ar gyfer gwasanaethau gofal a chymorth, i sicrhau ei bod yn canolbwyntio ar ganlyniadau i ddefnyddwyr gwasanaeth;
- diwygio'r system arolygu ar gyfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol;
- ail-enwi a rhoi pwerau newydd i Gyngor Gofal Cymru;
- diwygio'r system o reoleiddio'r gweithlu gofal cymdeithasol.

Bydd copïau o'r Rheoliadau a'r canllaw statudol ar gael ar wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Pa ddewisiadau polisi sydd wedi'u hystyried?

a

Beth fydd yr effeithiau os *na* fydd y polisi'n cael ei weithredu?

Mae Memoranda Esboniadol ac Asesiadau Effaith Rheoleiddiol wedi'u cynnal ar gyfer y ddwy set hyn o Reoliadau. Mae'r dogfennau hyn yn rhoi amlinelliad o gostau, buddiannau a risgiau opsiynau polisi amrywiol ar gyfer gweithredu'r darpariaethau yn y Rheoliadau hyn. Mae'r Memoranda a'r Asesiadau ar gael ar wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Oherwydd bod y sector gofal eisoes yn cael ei reoleiddio o dan Ddeddf Safonau Gofal 2000, creu is-ddeddfwriaeth, wedi'i hategu gan ganllawiau statudol, yw'r dull dewisol o gyflawni'r bwriad polisi. O ganlyniad, nid oes unrhyw opsiynau eraill wedi'u hystyried.

Byddai methiant i weithredu'r rheoliadau yn golygu na fyddai'r bwriad polisi o ddiweddarau a symleiddio'r ddeddfwriaeth sy'n nodi'r safonau gofal ar gyfer gwasanaethau rheoleiddiedig yng Nghymru yn cael eu cyflawni.

A yw'r rhaglen yn dangos cysylltiad clir â strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer yr iaith Gymraeg – [Cymraeg2050 – miliwn o siaradwyr](#)?

Bwriedir i'r rheoliadau a'r canllawiau statudol gefnogi Mwy na Geiriau...y Fframwaith Strategol Dilynol ar gyfer Gwasanaethau Gymraeg ym meysydd Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol 2016-2019. Mae'r strategaeth yn darparu dull systemataidd i wella gwasanaethau i'r rhai sydd angen neu sy'n dewis derbyn eu gofal yn Gymraeg. Mae'n adeiladu ar y gwerthoedd y dylid trin pob unigolyn gydag urddas a pharch ac y dylent dderbyn asesiadau cywir a gofal priodol. Mae'r strategaeth yn pwysleisio pwysigrwydd derbyn gofal yn eich iaith gyntaf, gan nodi "nad yw'r defnydd o'r Gymraeg yn fater o ddewis yn unig, mae hefyd yn fater o angen. Mae'n arbennig o bwysig i nifer o bobl sy'n agored i niwed a'u teuluoedd sydd angen gallu cael mynediad i wasanaethau yn eu hiaith gyntaf, er enghraifft pobl hŷn sy'n dioddef dementia neu strôc a allai golli eu hail iaith neu blant ifanc iawn a allai fod yn siarad Gymraeg yn unig."

Rydym wedi ymgorffori'r egwyddorion hyn i'r Rheoliadau, yn bennaf o dan y gofyniad i ddarparwyr gymryd camau rhesymol i gyflawni anghenion ieithyddol unigolion. O ran y Gymraeg, mae hyn yn golygu bod darparwyr gwasanaeth yn darparu neu'n gweithio i gynnig yn weithredol wasanaeth Gymraeg i unigolion sy'n siarad Gymraeg fel eu hiaith gyntaf. O ran gwybodaeth i unigolion, mae gofyniad i'r canllaw i'r gwasanaeth fod mewn iaith, arddull, cyflwyniad a fformat priodol, a'i fod wedi dilyn y datganiad o ddiben ar gyfer y gwasanaeth. Mae'r gofynion yn y Rheoliadau hefyd yn cefnogi un o'r egwyddorion craidd yn Neddf 2014 i alluogi pobl i gael llais cryfach mewn, a mwy o reolaeth dros, eu gofal a'u cymorth.

Mae gan awdurdodau lleol yng Nghymru ddyletswydd statudol i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg, sy'n esbonio sut y dylent hwy fel sefydliadau ddefnyddio'r iaith Gymraeg. Bydd hyn yn sbardun ar gyfer gwella'r ddarpariaeth Gymraeg yn y gwasanaethau hynny sy'n cael eu cynnal neu eu contractio gan awdurdodau lleol. Pan na fydd gwasanaethau'n cael eu darparu gan awdurdod lleol, mae'r Rheoliadau yn ceisio defnyddio dull cymesur ar ofynion yr iaith Gymraeg, gan roi pwyslais ar beth sy'n bwysig i'r unigolyn sy'n derbyn y gofal a'r cymorth.

Beth yw'r effeithiau (cadarnhaol a/neu negyddol) ar yr iaith Gymraeg yr ydych wedi'u nodi yn y cam cynllunio cychwynnol?

h.y. siaradwyr Gymraeg, cymunedau Gymraeg, addysg Gymraeg, dysgwyr Gymraeg, gwasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg?

Disgwyliwn i'r rheoliadau a'r canllaw statudol gael effaith fach a chadarnhaol ar y Gymraeg.

Wrth ddatblygu'r rheoliadau fe wnaethom ofyn am farn am effaith y rheoliadau ar nifer o grwpiau. Gofynnwyd am farn yn bennaf drwy ymgynghoriad ar y cynigion drafft. Yn ogystal,

fe wnaethom hefyd gynnal dau ddigwyddiad ymgynghori a oedd yn ceisio barn rhanddeiliaid ar nifer o faterion a oedd yn ymwneud â'r rheoliadau. Ni nodwyd unrhyw faterion arwyddocaol a oedd yn ymwneud â'r Gymraeg yn ystod y camau hyn.

Mae'r rheoliadau yn canolbwyntio'n bennaf ar ddarparwyr gwasanaeth a rheoleiddiwr y gwasanaeth o ran cyflawni eu swyddogaethau a cheisio cael effaith gyfartal ar bob darparwr gwasanaeth, waeth beth yw eu hiaith. Felly, ni fydd unrhyw effaith negyddol benodol ar y Gymraeg. Pan fydd y rheoliadau yn canolbwyntio ar y gweithlu, mae'r rhain yn canolbwyntio ar gyflogwyr yn darparu gwybodaeth a chynnal trafodaethau i gynnig dewis contract i'w staff. Nid ydym yn rhagweld y bydd y rhain yn wahanol i'r rhai sy'n cael eu cynnal rhwng cyflogwr a chyflogai yn awr.

Nid oes unrhyw reoliad yn gwneud unrhyw ddarpariaethau penodol sy'n cael effaith andwyol ar y dewis neu'r defnydd o iaith.

Yn ystod yr ymgynghoriad dywedodd nifer o randdeiliaid na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol nac unrhyw iaith arall. Mae hyn yn fater pwysig sy'n ganolbwynt i strategaeth Llywodraeth Cymru ar ddarpariaeth Gymraeg ar ddatblygiad polisi.

Yn ystod y broses gyfan o ddatblygu'r rheoliadau hyn, roedd y deunyddiau a'r digwyddiadau ymgynghori ar gael yn Gymraeg. Yn ogystal, cyhoeddir y rheoliadau a'r canllaw statudol ategol terfynol yn Gymraeg.

Pwy yw'r rhanddeiliaid? A yw anghenion siaradwyr a dysgwyr Gymraeg yn cael sylw? I ba raddau y mae siaradwyr a dysgwyr Gymraeg yn debygol o ymateb yn gadarnhaol i'r cynigion?

Y rhanddeiliaid yw'r un rhai a amlinellwyd yn yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg ar gyfer Deddf 2016. Mae hyn ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

Pan na chwblhawyd asesiad, neu pan na chanfuwyd effeithiau, nodwch gyfrif llawn at ddibenion cadw cofnod. (Gellid defnyddio hwn yn y Tribiwnlys Iaith Gymraeg yn y dyfodol)

Dd/G

Pa gamau gweithredu/gwaith pellach sydd wedi'u nodi yn y cam cynllunio cychwynnol? e.e. gofynion data, angen am adolygiad gan gymheiriaid, ymgysylltu allanol â grwpiau Gymraeg, rhestri rhanddeiliaid neu ymgynghori, cysylltu ag Uned y Gymraeg am gyngor)?

Bydd y rheoliadau a'r canllaw statudol yn cael eu hadolygu fel rhan o'r broses o weithredu'r

ddeddfwriaeth. Bydd hyn yn cynnwys ymgysylltiad parhaus gyda rhanddeiliaid allweddol yn y sector ac adborth gan y rheoleiddiwr gwasanaeth ynglŷn â'r graddau y mae darparwyr yn cydymffurfio â'r gofynion.

CAM 2 – NODI AC ASESU EFFEITHIAU

Crynodeb o'r Asesiad Effaith

Crynowch yr asesiad manwl a gynhaliwyd ynghyd â'r sgoriau a ddynodwyd.

Effeithiau cadarnhaol:

Fel yr amlinellwyd yn y cam cynllunio uchod, mae'n debygol y bydd effaith fach a chadarnhaol ar y Gymraeg o ganlyniad uniongyrchol i'r rheoliadau a'r canllaw statudol.

O gymharu â'r system bresennol o Reoliadau a Safonau Gofynnol Cenedlaethol, cyflwynwyd uwch ofyniad i ddarparwyr yn sgîl y rheoliadau a'r canllaw statudol hyn o ran cyflawni anghenion ieithyddol unigolion. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i ddarparwyr nodi anghenion cyfathrebu unigolyn fel rhan o'r broses o benderfynu a yw'r gwasanaeth yn addas i'r unigolyn. Mae hefyd yn cynnwys rhoi mesurau ar waith i sicrhau bod unigolion yn gallu cyfathrebu'n ystyrlon. Mae hyn yn gysylltiedig ag iaith angen a dewis yr unigolyn, a fyddai'n cynnwys Cymraeg.

Mae gofynion tebyg yn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Cartrefi Plant ac Asiantaethau Gofal Cartref. Er enghraifft:

1. Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Cartrefi Plant

13.4 Darperir cymorth priodol ar gyfer plant yn eu dewis iaith, gan gynnwys iaith arwyddion, i'w galluogi i gyfleu eu hanghenion, dymuniadau a'u pryderon ac i gyfathrebu gyda'r staff a'r plant eraill yn y cartref.

2. Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Asiantaethau Gofal

8.5 Mae gweithwyr gofal yn sensitif ac yn ymatebol i hil, diwylliant, iaith, crefydd, oedran, anabledd, rhyw a rhywioldeb y bobl sy'n derbyn gofal, eu perthnasau a'u cynrychiolwyr.

9.6 Mae asiantaethau yn gweithio i ddarparu gwasanaeth i ddefnyddwyr gwasanaeth yn eu dewis iaith neu ddull cyfathrebu.

Fodd bynnag, o dan yr opsiwn hwn, bydd y gofynion hyn yr un mor berthnasol ar draws yr holl wasanaethau rheoleiddiedig. Er bod sicrhau bod unigolion yn gallu cyfathrebu mewn ffordd ystyrlon eisoes yn arfer da, byddai sicrhau cysondeb rhwng gwasanaethau o fewn

rheoliadau yn creu effaith fach a chadarnhaol i'r unigolyn sy'n derbyn y gwasanaeth, ac mewn cysylltiad â'r iaith Gymraeg yn fwy cyffredinol.

O safbwynt arolygu, byddai effaith fach a chadarnhaol hefyd ar broses arolygu AGGCC yn nhermau sicrhau bod pobl sy'n siarad Cymraeg yn derbyn gwasanaethau yn Gymraeg, pan fydd eu hangen arnynt, heb iddynt orfod gofyn amdano. Bydd fframweithiau arolygu AGGCC sydd wedi'u diweddarau yn adlewyrchu gofynion y rheoliadau a'r canllaw statudol ac yn sicrhau arolygu cyson (o ran y Gymraeg) ar draws yr holl wasanaethau rheoleiddiol.

Effeithiau negyddol:

Dd/G

Cyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg e.e. statws, y defnydd o wasanaethau Cymraeg, y defnydd o'r Gymraeg o ddydd i ddydd, y defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle?

Bydd y trefniadau ôl-weithredol ar gyfer y rheoliadau yn cael eu hystyried fel rhan o'r adolygiad ôl-weithredol ehangach ar gyfer Deddf 2016 yn ei chyfanrwydd.

Mae Deddf 2016 yn gwneud darpariaethau ar gyfer nifer o ddulliau adrodd nodedig a fydd yn cynnig tystiolaeth glir i hysbysu'r adolygiad ôl-weithredol a sefydlu pa mor llwyddiannus fu'r Ddeddf yn nhermau cyflawni ei nodau o:

- sicrhau llesiant dinasyddion;
- gwella ansawdd gofal cymdeithasol.

Yn ogystal, datblygwyd fframwaith mesur perfformiad y bydd yn ofynnol i awdurdodau lleol adrodd yn ei erbyn o dan Ddeddf 2014. Rhagwelir y bydd y wybodaeth a fydd yn cael ei chasglu yn y dull adrodd ychwanegol hwn hefyd yn cyfrannu at yr adolygiad ôl-weithredol cyfan o Ddeddf 2016 a'i his-deddfwriaethau.

Tystiolaeth/data a ddefnyddiwyd, gan gynnwys proffil demograffig, wrth ystyried yr effeithiau:

Dd/G

Beth yw'r effaith gyffredinol debygol ar yr iaith Gymraeg os bydd y polisi hwn yn cael ei ddatblygu?

Cadarnhaol:

☐

Negyddol:

☐

Niwtral:

☐

Anhysbys:

☐

Penderfyniad yn dilyn yr Asesiad	1. Dim newid sylweddol ☐
	2. Addasu'r polisi er mwyn gwella effeithiau ☐
	3. Parhau â'r polisi gyda mesurau lliniaru ☐
	4. Rhoi'r gorau i'r polisi a chael gwared arno ☐
Os ydych wedi ateb 2, 3 neu 4 uchod, atebwch y canlynol: Sut y byddwch chi'n ymdrin â'r effeithiau hyn er mwyn gwella'r canlyniadau i'r Gymraeg? Manylion am fesurau lliniaru/pwyntiau gweithredu/dewisiadau amgen sydd wedi'u mabwysiadu er mwyn lleihau'r effeithiau negyddol a chynyddu'r canlyniadau cadarnhaol:	
Dd/G	
Os ydych yn ymgysylltu neu'n ymgynghori, beth yw eich cynlluniau? Pa gwestiynau ydych yn dymuno gofyn i randdeiliaid am yr Asesiad Effaith ar yr iaith Gymraeg a materion yn ymwneud â'r Gymraeg?	
Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus 12 wythnos ar y ddwy set o Reoliadau drafft rhwng 21 Mehefin a 13 Gorffennaf 2017. Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys cwestiwn i helpu i ddeall a fydd effaith ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig; y bwriad oedd y byddai rhanddeiliaid â diddordeb yn y Gymraeg yn defnyddio'r cwestiwn hwn i ddarparu eu hadborth. Roedd dogfennau'r ymgynghoriad ar gael yn ddwyieithog. Gallai'r ymatebwyr gwblhau eu hymateb i'r ymgynghoriad yn Gymraeg pe byddent yn dymuno. Cynhaliwyd gweithdai hefyd i gefnogi'r ymarfer ymgynghoriad cyhoeddus gyda siaradwr Cymraeg ar gael pe byddai'r cyfranogwyr yn dymuno gofyn cwestiynau a derbyn atebion yn Gymraeg.	
CAM 3: CAMAU AR ÔL YMGYNGHORI A PHARATOI AR GYFER CYHOEDDI, MONITRO A GWERTHUSO	
Ar ôl ymgynghori, pa newidiadau ydych wedi'u gwneud i fynd i'r afael ag unrhyw faterion a godwyd yn ymwneud â'r Gymraeg?	
Ni chodwyd unrhyw faterion sylweddol o ran y Gymraeg. Fodd bynnag, derbyniwyd adborth gan Gomisiynydd y Gymraeg ar sut y gellir atgyfnerthu'r rheoliadau a'r canllaw statudol o ran yr iaith Gymraeg. Mewn ymateb i hyn, mae'r canllaw statudol wedi'i egluro ac ychwanegwyd pwynt unigol i esbonio y gall darparwyr gyflawni'r gofynion ieithyddol a chyfathrebu yn y rheoliadau drwy ddarparu neu weithio tuag at gynnig yn weithredol wasanaeth yn yr iaith Gymraeg i unigolion	

sy'n siarad Cymraeg fel eu mamiaith.

Sut byddwch yn monitro'r effeithiau parhaus wrth weithredu'r polisi?

Bydd y trefniadau ôl-weithredol ar gyfer y rheoliadau yn cael eu hystyried fel rhan o'r adolygiad ôl-weithredol ehangach ar gyfer Deddf 2016 yn ei chyfanrwydd.

Mae Deddf 2016 yn gwneud darpariaethau ar gyfer nifer o ddulliau adrodd nodedig a fydd yn cynnig tystiolaeth glir i hysbysu'r adolygiad ôl-weithredol a sefydlu pa mor llwyddiannus fu'r Ddeddf yn nhermau cyflawni ei nodau o:

- sicrhau llesiant dinasyddion;
- gwella ansawdd gofal cymdeithasol.

Yn ogystal, datblygwyd fframwaith mesur perfformiad y bydd yn ofynnol i awdurdodau lleol adrodd yn ei erbyn o dan Ddeddf 2014. Rhagwelir y bydd y wybodaeth a fydd yn cael ei chasglu yn y dull adrodd ychwanegol hwn hefyd yn cyfrannu at yr adolygiad ôl-weithredol cyfan o Ddeddf 2016 a'i his-deddfwriaethau.

Amlinellwch sut byddwch yn parhau i nodi'r effeithiau wrth fonitro a gwerthuso yn y dyfodol?

Bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i fonitro effaith y rheoliadau ar yr iaith Gymraeg; bydd hyn yn cynnwys ystyried y gwaith a gwblhawyd o dan y fframwaith canlyniadau cenedlaethol.

Ar ôl i ddarparwyr gwasanaeth ail-gofrestru gydag AGGCC o dan Ddeddf 2016, byddant yn cael eu harolygu yn erbyn y rheoliadau gwasanaeth a'r canllaw statudol hyn (yn ogystal â fframwaith arolygu AGGCC). Bydd y canlyniadau cyffredinol o'r arolygiadau hyn sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg yn cyfrannu at yr adolygiad a'r prosesau monitro ôl-weithredol.

Unrhyw sylwadau eraill – canlyniadau parhaus gwerthusiadau, effeithiau sy'n dod i'r amlwg

Dd/G

4. Datganiad

Arweinydd polisi:****Dileer fel y bo'n briodol:***

***Mae'r polisi hwn / Nid yw'r polisi hwn yn effeithio ar yr iaith Gymraeg. Pan ganfuwyd effeithiau negyddol neu gyfleoedd a gollwyd, mae'r diwygiadau a'r camau priodol wedi eu rhoi ar waith.**

Enw:

Chris Pickett

Adran:

Gwasanaethau Cymdeithasol

Dyddiad(au):

Rhagfyr 2017

Llofnod:

Chris Pickett

Dyddiadau adolygu:

Ebrill 2019

ARDYSTIAD AC ADOLYGIAD YR UWCH SWYDDOG CYFRIFOL

Rwyf yn fodlon bod yr Asesiad o Effaith ar y Gymraeg yn adlewyrchiad cywir o'r rhaglen/prosiect yn y cam hwn o'r datblygiad. Trwy lofnodi, gallaf gadarnhau bod Safonau'r Gymraeg wedi cael y sylw priodol. Byddaf yn ail-asesu'r rhaglen/prosiect ar adegau allweddol trwy oes y rhaglen/prosiect, gan gynnwys adolygiadau polisi.

Llofnodwyd Alistair Davey

(Uwch Berchennog Cyfrifol)

Dyddiad Rhagfyr 2017

Llofnodwyd

(Uwch Berchennog Cyfrifol)

Dyddiad Adolygu

Llofnodwyd

(Uwch Berchennog Cyfrifol)

Dyddiad Adolygu

Llofnodwyd (Uwch Berchennog Cyfrifol)	Dyddiad Adolygu
--	-----------------